

WALTERS, THOMAS (1729-1794), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Thomas Walters
Dyddiad geni: 1729
Dyddiad marw: 1794
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Yn byw ar ei dreftadaeth, Pant-yr-hesg, Mynydd-islwyn (Mynwy). Ni wyddys pa bryd y dechreuodd bregethu y mae'n amlwg ei fod yn rhy ieuanc i fod yn un o ddychweledigion cenhadaeth **Howel Harris** yn y parthau hynny, ond y mae yr un mor amlwg mai diwygiad Methodistaidd ei naws a effeithiodd arno, oblegid y mae **Philip David** yn ei sennu droeon, yn ei ddyddlyfr, am 'gadw sw'n' a 'rantio' wrth bregethu. Cododd dŷ cwrdd yn 1765, a hynny bron ar drothwy hen eglwys **Philip David** ym Mhenmain; cyfeirid at y capel fynychaf dan yr enw lled-Fethodistaidd ' y Tynewydd ' ('Bethel ' oedd ei enw priod), a bu **Williams Pantycelyn**, **David Williams** Llysfronydd, a phregethwyr Methodistaidd eraill, yn pregethu ynddo. Tua 1765, urddwyd Thomas Walters (gan y gynulleidfa ei hunan, â dilyn esiampl y New Inn - gweler dan **Morgan John Lewis**) yn weinidog, Annibynnol bellach wrth gwrs. Bu farw 25 Mai 1794, yn 65 oed. Parhaodd naws Fethodistaidd Bethel am beth amser wedi marw Thomas Walters, ond tua 1811 aeth y lleiafrif allan a sefydlu achos Methodistaidd y Gelli-groes.

Olynydd uniongyrchol Thomas Walters (hyd 1811) fel gweinidog Bethel oedd ei nai, yntau'n

Thomas Walters (1761 - 1821) Crefydd,

a oedd eisoes (1793) yn weinidog y New Inn. Yr oedd yntau'n fwy o Fethodist nag o Annibynnwr cyn 1793, a thua 1817 dychwelodd yn llwyr at y cyfundeb Methodistaidd. Bu farw 2 Tachwedd 1821 yn Cwm-dows, Mynydd-islwyn.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 90-2, 94-5, 84-5

Y Cofiadur, 1935, nodyn 73

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804807](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). WALTERS, THOMAS (1729-1794), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WALT-THO-1729>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government